# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 12/07/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Mared Llywelyn Williams | Gruffydd Williams | Gareth Jones | Gwynfor Jones |
| Caren Jones | Arfon Hughes | Rhys Llewelyn | Sharon Williams | Carys Roberts |
| Lleucu Jones | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Alaw Llewelyn Roberts, Rhian Sanson, Janice Evans a Gito Williams.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Y clerc – eitem rhif 5.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 14/06/2022
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Gareth Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Buddleia wrth ymyl maes parcio Lôn Gam.**
   Mae cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn â coed Buddleia sydd wedi tyfu yn ormodol ar y Lôn Gam yn Nefyn ac yn dod drosodd i'r maes parcio ac hefyd yn amharu ar yr olygfa o'r maes parcio. Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd gan yr aelod lleol fod 'japanese knottweed' yn tyfu o'r llecyn yma i lawr at y traeth felly mae angen dwyn hyn i sylw Cyfoeth Naturiol Cymru.
   Penderfyniad: y clerc i yrru llythyr i berchnogion y Buddleia i ofyn yn garedig wrthynt i'w dacluso ac hefyd i gysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn wrthynt ddelio hefo'r 'japanese knottweed'.
   Cynnig: Rhys Llewelyn    Eilio: Gruffydd Williams

5. **Adolygu cyflog y Clerc**
   Yng nghytundeb cyflogaeth y clerc mae'n dweud bod angen cael gwerthusiad yn flynyddol.
   Mae'r clerc yn glerc i Gyngor Cymuned arall ac yn ddiweddar maent wedi codi ei chyflog yn dilyn gwerthusiad blynyddol i £16 yr awr a gan ei bod yn gwneud yn union yr un gwaith yn y ddau Gyngor mae hi'n gofyn am yr un cyflog gan CTN.
   Penderfyniad: pasiwyd i godi cyflog y Clerc i £16.50 yr awr.
   Cynnig: Carys Roberts    Eilio: Gareth Jones

6. **Gŵyl y Glaniad –** Rhys Llewelyn
   Mae Gŵyl y Glaniad yn dod i Nefyn ar ddydd Sadwrn 23ain o Orffennaf 2022 ac yn cael ei drefnu gan Cymdeithas Cymru-Ariannin. Mae gwybodaeth amdano wedi cael ei anfon i'r aelodau drwy ebost ac mae cyflwyniad 'power point' wedi cael ei bartoi ar gyfer ysgolion Dwyfor. Pris y tocynnau yw £16 am adloniant a bwffe dau gwrs ac mae Cymdeithas Cymru-Ariannin yn dymuno i aelodau Cyngor Tref Nefyn fod yn bresennol gan mai Nefyn oedd y dref gyntaf yng Nghymru i efeillio â thref o'r Ariannin felly estynnir croeso i bawb ymuno yn y dathliad.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

**7. CCTV Parc y Ddôl –** Diweddariad

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf mae un o'r aelodau wedi cysylltu hefo'r Heddlu i gael mwy o wybodaeth, a'u barn, am osod CCTV i fyny ond nid yw wedi derbyn unrhyw wybodaeth yn ôl dim ond awgrymiad i CTN gysylltu hefo Cyngor Gwynedd ond mae'r clerc wedi gwneud hynny eisioes. Mae gan nifer o'r aelodau bryderon ynglŷn â gosod camera CCTV i fyny ac mae rhai yn cefnogi'r syniad felly penderfynwyd ei ohirio tan pwyllgor mis Medi er mwyn i bawb gael mwy o gyfle i feddwl am y mater.

**8. Llyfrgell Nefyn – crac yn y ffenestr** – diweddariad – Arfon Hughes

Mae un o'r aelodau wedi bod yn y llyfrgell i weld y ffenestr, un o'r ffenestri cefn ydi hi ac mae'r crac ar y tu mewn felly nid yw'n meddwl ei bod angen ei thrwsio ac mae aelod arall sydd wedi gweld y ffenestr yn cytuno. Mae'r aelod lleol yn anghytuno ac eisiau trwsio'r ffenestr rwan cyn iddi fynd dim gwaeth.

Penderfyniad: y Clerc i gysylltu hefo dau gontractwr lleol i ofyn am amcanbris a'r Clerc i'w gyrru i'r aelodau drwy ebost i weld os yw pawb yn hapus i fynd hefo'r pris rhataf.

Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gwynfor Jones

**9. Arwydd Uwchben Siop Siarad – dewis logo**

Nid oes neb wedi cael amser i ddylunio logo Cyngor Tref Nefyn ar gyfer Siop Siarad felly fe fydd yn cael ei roi ar agenda mis nesaf.

**10. Cytundeb Mynwent Nefyn a Rhodfa'r Môr**

Gad nad yw'r gwaith o greu estyniad i fynwent Nefyn wedi cael ei wneud mae'r contractwr felly wedi torri'r gytundeb. Cafodd y gytundeb ei arwyddo ar y 9$^{fed}$ o Dachwedd 2021 ac ynddi 'roedd yn dweud fod y gwaith i fod i gael ei gwblhau o fewn pedwar mis sef erbyn y 9$^{fed}$ o Mawrth 2022 ond er mawr siom ni chafodd y gwaith ei gychwyn. Pasiwyd mewn cyfarfod llawn o CTN i roi tan ddiwedd mis Mehefin iddo orffen y gwaith ond eto nid yw'r gwaith wedi cael ei gychwyn felly mae'n rhaid dod i benderfyniad ynglŷn â'r camau nesaf. Derbyniwyd dau amcanbris am y gwaith yn wreiddiol, methwyd a cael tri. Mae'r rhan claddu llwch ar hyd top y fynwent wedi ei lenwi ac mae gan y Clerc rhywun yn aros i gladdu llwch yn y fan honno pan fydd yr estyniad wedi cael ei wneud felly mae dipyn o frys i wneud y gwaith.

Penderfyniad: y Clerc i gysylltu hefo'r contractwr arall a gyflwynodd bris i fewn am y gwaith i weld os yw'r pris wedi newid ac amserlen i wneud y gwaith. Y Clerc hefyd i yrru llythyr i'r contractwr gafodd y gytundeb i ddweud wrtho fod y gytundeb wedi dod i ben.

Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

Mae'r un contractwr hefyd wedi cael y gwaith o drwsio Rhodfa'r Môr yn Nefyn, ni gychwynodd y gwaith am flwyddyn a hanner ar ôl iddo gael y gytundeb ac felly gyrrwyd llythyr iddo ar y 15$^{fed}$ o Mawrth 2022 yn rhoi 30 diwrnod iddo gwblhau'r gwaith. Mae o wedi cychwyn ar y gwaith ond heb ei orffen ac mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ansafonol.

Penderfyniad: y Clerc i yrru llythyr i'r contractwr i ddweud wrtho fod y gwaith yn ansafonol a gofyn iddo roi croen o lwch Chwarel Minffordd ar ei ben a'i rowlio yn well.

Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

**11. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Adnewyddu bolardau Lôn Gam, Nefyn**
  Mae CTN wedi derbyn amcanbris gan Cyngor Gwynedd am adnewyddu bolardau Lôn Gam, Nefyn. Mae dau bris wedi cael ei baratoi gan y contractwr sydd yn gontractwr Cyngor Gwynedd, un am y bolardau sydd dan gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd a'r lleill sydd dan gyfrifoldeb CTN.
  Penderfyniad: y Clerc i gysylltu hefo dau gontractwr lleol i gael amcanbris ganddynt erbyn pwyllgor mis Medi.
  Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Gwynfor Jones
- **Ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd**
  Mae'r clerc wedi anfon yr ebost at yr aelodau ac mae sylwadau wedi eu derbyn ganddynt ar yr ymgynghoriad.
  Penderfyniad: pwysleisio pwysigrwydd o gael llwybr/palmant rhwng Nefyn a Pistyll, a Morfa a lle mae'r palmant yn gorffen wrth ymyl cylchfan Bryncynnan. Hefyd pwysleisio'r pwysigrwydd o gael llwybr saff i'r ysgol o Ysgol Morfa i Trem y Garn. Mae angen pwysleisio hefyd ei fod yn hanfodol iddynt fod yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn a cadeiriau gwthio.
  Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Gareth Jones
- **Gweithdai Ardal Ni 2035**
  Mae'r Clerc wedi derbyn ebost ynglŷn â cynnal Gweithdai Ardal Ni 2035 ym mis Medi ac yn gofyn am ddau gynrychiolydd o bob cynghor cymuned a thref.
  Penderfyniad: dewiswyd dau aelod i gynrychioli CTN ac mae'r Clerc am anfon eu manylion cyswllt ymlaen.

**12. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1064.55
- Annes Glynn – Llunio englyn i Rhys Tudur - £45.00
- John Gwynfor Jones – angladd Droy Darrach-York - £500.00
- John Gwynfor Jones – angladd Christopher Thomas Jordan - £500.00
- John Gwynfor Jones – angladd John Griffiths - £500.00
- Tyddyn Sachau – blodau Edern - £27.96
- Tyddyn Sachau – blodau Morfa - £40.44
- Tyddyn Sachau – blodau Edern - £588.96
- D M Parry – trydydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £170.00 + gwaith ychwanegol - £25.00 = £195.00
- T J Williams – Cadwyn i'r angor - £30.00
- Ashley Hughes - £31.37
- Cliff Hughes – Taliad 3 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1740.07

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

- Snowdonia Fire & Security – Larwm diogelwch y Llyfrgell - £60.00
- Lewis Jones – 6 Hysbysfwrdd wedi ei wneud o dderw - £1680.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Gareth Jones Eilio: Mared Llywelyn Williams

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Zurich Municipal – arian am y difrod tân Parc y Ddol i gyfrif Bryn Mynach - £4389.37

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298